

FFRAMWAITH CYMHWYSEDD IAITH ATHRAWON // **WELSH LANGUAGE COMPETENCY FRAMEWORK**

Linc i'r fframwaith – copi Cymraeg:

<https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-06/fframwaith-cymwyseddau-iaith-gymraeg-ymarferwyr-addysg.pdf>

Link to the Framework – English version:

<https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-06/welsh-language-competency-framework-for-education-practitioners.pdf>

Fideo Cymraeg yn esbonio sut i uwchlwytho tystiolaeth i'r PDP: https://uowtsd-my.sharepoint.com/:u:/g/personal/lowri_lloyd_uwtsd_ac_uk/ESHZ3MDh4tpOo9yczTfG6PkBgVYX2-lArgApilTcLuHlWg?e=7Twdwl

Video explaining what and how to upload evidence to the PLP: https://uowtsd-my.sharepoint.com/:u:/g/personal/lowri_lloyd_uwtsd_ac_uk/EaBc5kEPZQNIqiVz_Ubpnz4BsPpaiHPIhDB33GDnTrYW8w?e=0o7E9G

CWESTIYNAU CYFFREDIN / <i>FAQs</i>	
Dwi ar goll. Does gen i ddim syniad beth yw'r Fframwaith na beth sydd angen gwneud <i>I'm totally lost. No idea what the Framework is or what to do.</i>	Mae'r Fframwaith yn asesu lefel Cymraeg pob athro yn y sgiliau – gwranddo, siarad, ysgrifennu a darllen. Bydd pob myfyriwr yn cael lefel ar gyfer eu Cymraeg ar gyfer pob sgil. Mae grid asesu y portfolio ar y linc cyntaf uwchben. Edrychwch arno fe i weld beth yw'r lefelau gwahanol ar gyfer y sgiliau. Bydd eisiau uwchlwytho tystiolaeth i'r PDP yn dangos lefel eich Cymraeg chi. Dyma eich cyfle i ddangos sut mae eich Cymraeg wedi datblygu a sut rydych chi yn ei defnyddio yn eich gwersi/ysgolion. <i>The Framework assesses teachers' level of competency in Welsh – the four skills of listening, speaking, writing and reading are assessed. There is a link to the assessment grid on the link at the top of the page. That's a good place to start. Have a look at the different achievement levels for each skill.</i> <i>You will need to upload evidence to the PLP showing your use of Welsh. This is your opportunity to show how your Welsh skills have developed and how you use Welsh in your lessons/schools.</i>
Sut mae llwytho tystiolaeth i'r PDP? <i>How do I upload evidence to the PLP?</i>	Cliciwch y linc ar y fideo uchod. Mae'n dangos ac yn esbonio sut i uwchlwytho tystiolaeth <i>Click the video link above. It explains what to upload and how to upload evidence to the PLP</i>

Ar ol uwchlwytho fy nhystiolaeth cyntaf dwi'n cael ebost yn dweud bod eich ased wedi ei dderbyn. Beth yw hwn? <i>After uploading my first piece of evidence, I got an email saying the asset was accepted. What is this?</i>	Paid â phoeni. Bydd pawb yn cael hwn. Neges awtomatig yn y system yw hwn i ddangos bod dy bortffolio yn gweithio. <i>Don't worry. Everyone will get this message. It is an automated email and shows that your portfolio is working fine.</i>
Dwi wedi edrych ar y Fframwaith ac wedi gwylio'r fideo. Dwi dal ar goll! <i>I've looked at the Framework and the video. I'm still lost. Help!</i>	Cysylltwch gyda'ch tiwtor Cymraeg <i>Contact your Welsh tutor</i>
Erbyn pryd mae eisiau gwneud hwn? <i>When is the deadline?</i>	Dydd Gwener, Ebrill 30, 12pm (canol dydd). Ar ol yr amser yna bydd y tab ar eich PDP yn cael ei 'gloi' a dim ond yr aseswyr fydd yn gallu ei weld. <i>Friday, April 30th, 12pm (midday). After that, the tab on your PLP will be 'locked' and only assessors will be able to access it.</i>
TYSTIOLAETH FFILM / FILM EVIDENCE	
Mae'r fideo yn 14 munud. Ydy hwnna yn rhy hir? <i>My video is 14 minutes long. Is that too long?</i>	Bydd yr aseswr yn gwrandao ar 10 munud o'r ffilm. Os ydych chi'n credu bod gwell tystiolaeth yn hanner olaf y fideo gallwch chi roi nodyn yn y bocs o dan y fideo i'r aseswr wrando ar 4-14 munud <i>The assessor will watch 10 minutes of the video. If you think that the last section of the recording has better evidence of your Welsh, you can write a note in the text box below the video explaining this.</i>
Sut mae lawrlwytho fideo sydd wedi recordio ar Teams? <i>How do I download a recording from Teams?</i>	Byddwch chi yn derbyn ebost gan Microsoft Stream. Cliciwch ar y linc i fynd at y recordiad. Cliciwch y symbol '...' a dewis 'download'. <i>You will receive an email from Microsoft Stream after recording on Teams. Click the link to get to the recording. Click the '...' symbol and 'download'</i>
Ydw i'n gallu anfon fideo at fy nhwtor i wirio? <i>Can I send the video to my tutor for them to check if it's OK?</i>	Nac wyt. Eich tystiolaeth chi yw hwn i uwchlwytho. <i>No. This is your evidence to upload</i>
Roedd problemau 'wifi' wrth recordio'r fideo. Dyw'r llais/wynebau ddim yn glir. <i>There were connection issues during recording. Voices/faces are distorted occasionally</i>	Os yw'r sain yn glir, dyna'r peth pwysicaf. Os ydych chi yn credu bod y fideo yn dangos lefel eich Cymraeg gallwch chi ei uwchlwytho. Os nad ydy, efallai byddwch chi eisiau ailrecordio <i>If the audio is clear, that's the most important part. If you believe that the video reflects your level of Welsh, you can upload. If not, you might want to re-record.</i>
ADFYFYRIO YSGRIFENEDIG / WRITTEN REFLECTION	
Mae'n dweud bod eisiau 'hyd at 1,000 o eiriau'. Oes lleiafswm ac uchafswm cyrif geiriau?	Caniateir -10% felly rhwng 900-1,000 o eiriau <i>-10% allowance so 900-1,000 words</i>

<i>It says 'up to 1,000 words'. Is there a minimum and maximum word count?</i>	
Beth sydd rhaid ysgrifennu yn yr adfyfyriad? <i>What do I need to write about in the reflection?</i>	Dyma eich cyfle i esbonio ble rydych chi ar y fframwaith. Does dim strwythur penodol ond gallwch chi son am: • Eich llwybr iaith personol • Sut mae eich Cymraeg wedi datblygu eleni • Adfyfyrio ar y defnydd o'r Gymraeg yn y wers fideo • Adfyfyrio ar eich profiadau eraill yn yr ysgol o ran y Gymraeg • Son am eich sgiliau gwranddo, siarad, ysgrifennu a darllen Cymraeg • Sut gallwch chi ddatblygu eich sgiliau Cymraeg yn y dyfodol <i>This is your opportunity to explain where you are on the framework. There is no particular structure but you could discuss:</i> • <i>Your own language journey</i> • <i>How your Welsh has developed this year</i> • <i>Reflect on the the use of Welsh in your video lesson</i> • <i>Reflect on other experiences of Welsh in your schools</i> • <i>Discuss your Welsh listening, speaking, writing and reading skills</i> • <i>How you can develop your Welsh skills during your career</i>
Oes angen cyfeirio academiaidd yn yr adfyfyrio? <i>Do I need academic referencing in the reflection?</i>	Nac oes. Croeso i chi wneud os ydych chi yn son am ddulliau addysgu a dysgu arbennig ond nid traethawd academiaidd yw hwn. <i>No. You are welcome to reference certain language teaching methodology but this is not an academic essay.</i>
Oes eisiau i fi ysgrifennu geiriau/brawddegau Cymraeg yn yr adfyfyriad? <i>Do I need to write Welsh words/sentences in the reflection?</i>	Dyma eich cyfle chi ddangos eich sgiliau ysgrifennu Cymraeg. Croeso i chi ddefnyddio geiriau neu frawddegau yn Gymraeg. Gallwch chi ysgrifennu yn Saesneg, yn ddwyieithog neu yn Gymraeg i gyd <i>This is your opportunity to show your Welsh writing abilities. You are welcome to use Welsh words or sentences. You can write all in English, bilingually or all in Welsh</i>
NODIADAU MENTOR / MENTOR NOTES	
Does gen i ddim nodiadau gan fy mentor o'r ysgol. Beth ydw i fod rhoi fan hyn? <i>I don't have any notes from my mentor in school. What do I upload here?</i>	Os oes gen ti unrhyw nodiadau yn dy ddyddlyfr dysgu am dy ddefnydd o'r Gymraeg mewn gwersi fe alli di eu huwchlwytho fan hyn. Heblaw hynny, paid poeni os yw'r bocs yma yn wag.

	<i>If you have any comments from teachers in your daily diary about your use of Welsh, you could upload them here. If not, don't worry if this section is empty</i>
TYSTIOLAETH YCHWANEGOL / <i>ADDITIONAL EVIDENCE</i>	
Faint o dystiolaeth ychwanegol sydd eisiau? <i>How many pieces of evidence do I need?</i>	Defnyddiwch yr adran yma i uwchlwytho unrhyw dystiolaeth arall sy'n profi eich sgiliau gwranddo, siarad, darllen ac ysgrifennu. Os ydych chi'n hapus bod y sgiliau yma wedi eu profi yn y portfolio yn barod, efallai nad oes angen llawer o dystiolaeth ychwanegol yma. Yn gyffredinol, mae 2 ddarn o dystiolaeth ar gyfer pob sgil yn rhoi arweiniad i chi. <i>Use this section to upload extra evidence that will prove your abilities in Welsh listening, speaking, reading and writing. If you feel that these have already been evidenced in your portfolio, you might not need a lot of evidence here. Generally, 2 pieces of evidence for each skill is a guide.</i>
Mae gen i lawer o luniau fel tystiolaeth. Ydw i'n llwytho pob un fel ffeil JPEG? <i>I have a lot of snapshots as evidence. Do I upload every single one as JPEG files?</i>	Os yn bosibl, rhwch y lluniau i gyd gyda'i gilydd mewn dogfen Word neu PDF <i>If possible, group all the images together in a Word document or PDF</i>
ASESIAD/<i>ASSESSMENT</i>	
Beth fydda i'n cael fel asesiad? <i>What I will get as an assessment?</i>	Byddwch chi yn cael lefel ar gyfer pob un o'r sgiliau - Mynediad, Sylfaen, Canolradd, Uwch, Rhugl <i>You will get a level for each of the skills - Entry, Foundation, Intermediate, Higher, Proficiency</i>
Ble a pryd bydda i'n clywed y canlyniad? <i>Where and when will I get the result?</i>	Dydd Gwener, Mehefin 18fed, 12pm. Byddwch chi yn gweld asesiad ar waelod y tab Fframwaith Iaith ar eich PDP <i>Friday, June 18th, 12pm. You will see the assessment at the bottom of the Welsh Framework tab</i>
Mae gen i gwestiwn arall. Gyda pwy ydw i'n cysylltu? <i>Who do I contact with further questions?</i>	Eich tiwtor Cymraeg I Bawb <i>Your Welsh tutor</i>